# Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru

Cyd-bwyllgor Ymgynghorol ar Ystadegau Gwladol
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2015
Ystafell Gynhadledd 6, Parc Cathays, Llywodraeth Cymru

| **Yn bresennol** | | | |
|---|---|---|---|
| Phillip | Barlow | PB | Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| Chris | Clarke | CC | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Lee | Clarke | LC | Cyngor Sir Caerdydd |
| Neville | Evans | NE | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Lauren | Hassett | LH | Cyngor Sir Gwynedd |
| Leanne | John | LJ | Cyngor Sir Abertawe |
| Glyn | Jones | GJ | Llywodraeth Cymru |
| Helen | Jones | HJ | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Sue | Leake | SL | Llywodraeth Cymru |
| Anne-Marie | McCafferty | AMM | Cyngor Sir Merthyr |
| Jenny | Murphy | JM | Uned Data Llywodraeth Leol |
| Lesley | Rees | LR | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Matthew | Scanlon | MS | Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| Yuan | Shen | YS | Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr |
| Russell | Watts | RW | Cyngor Bro Morgannwg |
| Lowri | Wyn Francis | LWF | Cyngor Sir Gwynedd |
| **Yn Cymryd Cofnodion** | | | |
| Sarah | Blake | SB | Llywodraeth Cymru |
| Richard | Grove | RG | Llywodraeth Cymru |
| Hannah | Stewart | HS | Llywodraeth Cymru |
| **Siaradwyr** | | | |
| Richard | Palmer | RP | Uned Data Cymru |
| Rhiannon | Caunt | RC | Llywodraeth Cymru |
| Andrew | Charles | AC | Llywodraeth Cymru |
| Andrew | Stephens | AS | Uned Data Cymru |
| Lucy | Teague | LT | Llywodraeth Cymru |
| Martin | Parry | MP | Llywodraeth Cymru |
| Scott | Clifford | SC | Llywodraeth Cymru |
| **Ymddiheuriadau** | | | |
| Osian | Bowyer | | Comisiynydd y Gymraeg |
| Brett | Davis | | Heddlu De Cymru |
| Vicki | Doyle | | Cyngor Sir Caerffili |
| Jill | Edge | | Cyngor Sir Fynwy |
| Janine | Edwards | | Cyngor Sir Conwy |
| Rhys | Fidler | | Uned Data Llywodraeth Leol |
| James | Gardiner | | Uned Data Llywodraeth Leol |
| Alan | Jackson | | Llywodraeth Cymru |
| Martin | Jennings | | Comisiwn y Cynulliad |
| Ann | Kellaway | | Cyngor Celfyddydau Cymru |
| Steve | King | | Cyngor Sir Abertawe |
| Louise | Mackie | | Cyngor Sir y Fflint |
| David | Morgan | | Cyngor Sir Penfro |
| Geraint | Morgan | | Cyngor Sir Powys |
| Beverley | Searle | | Cyngor Bro Morgannwg |
| Alison | Vaughan | | Cyngor Sir Ceredigion |

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau** | |
| | Agorodd GJ y cyfarfod a chroesawodd yr aelodau newydd. Cofiwyd at deulu Di Greaves yn dilyn ei marwolaeth. Nododd GJ bod Di wedi bod yn rhan werthfawr o'r gymuned ystadegol yng Nghymru a'i bod wedi cyfrannu'n sylweddol dros y blynyddoedd. Bydd colled enfawr ar ei hôl. Bydd aelodau PCYC yn cael gwybod am unrhyw gasgliadau ar gyfer blodau ac am drefniadau'r angladd. | |
| **2** | **Nodyn o'r cyfarfod diwethaf a Diweddariad ar bwyntiau gweithredu (WSLC (2015 12) 01 a 02)** | |
| | Gwnaed ambell gais am ddiwygio cofnodion y cyfarfod diwethaf.<br><br>1. Mae Alison Vaughan wedi gofyn am ddiwygio eitem 7 y cofnodion blaenorol fel bod yr eitem yn darllen:<br><br>*Dywedodd JT bod Alison Vaughan yng Ngheredigion yn gweithio gyda Chyngor Dinas Manceinion ar amcangyfrifon ac amcanestyniadau poblogaethau o fyfyrwyr yn eu cyfeiriadau yn ystod y tymor, oherwydd eu bod yn gallu cael effaith fawr ar gyfradd ymddangosiadol y mudo i ddinasoedd / trefi sydd â phrifysgolion. Trafodwyd a ellir gwahanu myfyrwyr oddi wrth y boblogaeth yn gyffredinol yn yr amcangyfrifon a'r amcanestyniadau.*<br><br>– Fel dilyniant i hyn, mae Alison Vaughan wedi gofyn a yw'n bosib i Lywodraeth Cymru sicrhau unrhyw wybodaeth gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch am fyfyrwyr gydag awdurdodau lleol gyda phoblogaethau myfyrwyr.<br><br>2. Mynychodd Richard Reynolds o Gyngor Sir Caerfyrddin y cyfarfod a bydd angen ei ychwanegu at y rhestr o bobl a oedd yn bresennol.<br><br>Ar wahân i'r pwyntiau hyn, derbyniwyd cofnodion cyfarfod 25 Medi 2015 fel cofnodion manwl gywir. Trafodwyd pwyntiau gweithredu'r cyfarfod hwn ac roedd y rhan fwyaf wedi cael eu cau.<br><br>*Pwynt Gweithredu 1: Bydd y data am nifer y banciau bwyd yn cael eu gwella pan fydd adnoddau'n caniatáu.*<br><br>*Pwynt Gweithredu 4: Mae Janine Edwards wedi darparu sylw ei bod wedi bod yn llunio amcanestyniadau llafurlu ar lefel awdurodau unedol ers sawl blwyddyn ac y byddai'n fwy na pharod i rannu ei gwaith gydag aelodau eraill PCYC.*<br><br>*Pwynt Gweithredu 5: Dywedodd GJ bod LlC wedi cyhoeddi adroddiad cyntaf ar ddata gweinyddol (cylchlythyr cysylltiedig) a oedd yn defnyddio data o SAIL ar gyfer y prosiect Cefnogi Pobl.*<br><br>Gan fod y dyddiad yn cyd-daro â digwyddiad gwybodaeth yr Uned Data ac er mwyn lleihau costau teithio a gweinyddu, cytunwyd mai dim ond 3 gwaith fyddai PCYC yn cyfarfod yn 2016, gydag un cyfarfod yn cael ei gynnal yng Ngogledd Cymru a'r ddau arall yn Ne Cymru. Awgrymwyd gan PB ac AS y byddai troi'r cyfarfodydd hyn yn weminarau, neu ddefnyddio cynadleddau fideo yn ystod y cyfarfodydd hyn, yn eithriadol ddefnyddiol. | **Gweithredu: SL a GJ i ofyn i Janine rannu ei gwaith ar amcanestyniadau'r llafurlu mewn cyfarfod yn y dyfodol o PCYC**<br><br>**Gweithredu: Ystadegau Addysg Uwch LlC i ddarparu data am fyfyrwyr yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor yn ôl ALl** |
| **3** | **Adolygu papurau gwybodaeth** | |
| | **WSLC (2015 09) 03 – Newyddion Diweddaraf Llywodraeth Cymru**<br>Mae Llywodraeth Cymru (LlC) yn ceisio cael StatsCymru i fod yn fwy | |

| | | |
|---|---|---|
| | agored fel ei bod, er enghraifft, yn hawdd canfod yr holl ddata sy'n berthnasol i un awdurdod lleol ac ailddefnyddio data ar eich gwefannau eich hun.<br><br>Mae dadansoddiad maes o amddifadedd plant wedi cael ei gyhoeddi ac mae'n canolbwyntio ar chwe/saith dangosydd yr oedd gan LIC ddata ar eu cyfer, yn hytrach na llunio mynegai plant. Dywedodd YS y byddai data a gyhoeddir ar lefel yr awdurdod lleol yn eithriadol ddefnyddiol. Nododd SL a GJ y bydd rhywfaint o ddata ar lefel awdurdod lleol ar gael ar StatsCymru.<br><br>**WSLC (2015 09) 04 - Diweddariad Demograffeg**<br>Fel ymateb i gais ar e-bost gan Janine Edwards, cadarnhaodd GJ y bydd amcanestyniadau cartrefi ar gyfer Parciau Cenedlaethol yn cael eu rhyddhau tua dechrau 2016, gyda dyddiad rhyddhau i'w bennu'n fuan.<br><br>**WSLC (2015 09) 05 – Diweddariad yr Uned Data**<br><br>Bydd data cofrestriadau meddygon teulu'n parhau ar Lefel Genedlaethol.<br><br>**WSLC (2015 09) 06 – Arolwg Cenedlaethol**<br>Mae tablau data tair blynedd cyfun wedi cael eu rhyddhau ar StatsCymru, gan alluogi cyhoeddi mwy o fanylion, ond nid yw'r holl ddata ar lefel awdurdod lleol. | |
| **4** | **Asesiadau poblogaeth** | |
| | Rhoddodd AS gyflwyniad ar gatalog data asesiadau poblogaeth newydd yr Uned Data. Pwysleisiodd bod yr asesiadau poblogaeth yn canolbwyntio mwy ar anghenion unigol a beth ddylai awdurdodau lleol ei wneud er mwyn diwallu'r anghenion unigol hynny. Disgrifiwyd yr asesiad poblogaeth fel sylfaen dystiolaeth glir a phenodol mewn perthynas â gofal, anghenion cefnogi, anghenion gofalwyr ac fel sail i benderfyniadau cynllunio a gweithredol amrywiol.<br><br>Amcan y catalog yw gwella ansawdd yr asesiadau poblogaeth a'u cysondeb. Roedd ymgynghori ar y catalog drafft tan 14 Rhagfyr a dylai'r fersiwn 'gweithio' dwyieithog fod allan erbyn diwedd 2015. | **Gweithredu: Yr holl aelodau i roi gwybod i AS am unrhyw wybodaeth goll a ddylai fod yn y catalog asesiadau poblogaeth drafft yn eu barn hwy.** |
| **5** | **Adnoddau Rhyngweithiol ar gyfer Damweiniau Trafnidiaeth yng Nghymru** | |
| | Cafwyd arddangosfa gan LT o'r *Adnodd Rhyngweithiol ar gyfer Damweiniau Trafnidiaeth yng Nghymru* sydd wedi cael ei gynhyrchu gan dîm Ystadegau Trafnidiaeth LIC. Mae'r adnodd map yn galluogi'r defnyddiwr i edrych ar unrhyw ddigwyddiad a gofnodwyd gan yr heddlu ac sydd wedi digwydd ers 1979. Gellir rhannu'r digwyddiadau hyn yn grwpiau fel awdurdod lleol, heddlu, defnyddwyr ffordd a difrifoldeb.<br><br>Tynnodd LT sylw at broblemau llwytho amrywiol ac awgrymwyd y gellid defnyddio clystyrau yn lle pob achos unigol, i atal y problemau llwytho. Mae'r data ar gael fel tablau CSV neu google fusion drwy gyfrwng dolen ar y dudalen ar y we. Soniwyd am faterion datgelu ond cadarnhaodd LT nad yw'r wybodaeth bersonol o adroddiad yr heddlu'n cael ei chynnwys yn y data.<br><br>Gwelir yr adnodd rhyngweithiol yn http://gov.wales/topics/transport/road-users/road-safety-framework/road-safety-map?lang=en. | |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Canlyniadau Arolwg yr Iaith Gymraeg** | |
| | Cafwyd cyflwyniad gan MP ar *Arolwg yr Iaith Gymraeg 2013-15*, a gyhoeddwyd ar 26 Tachwedd 2015 gan LIC a Chomisiynydd y Gymraeg. Mae'r adroddiad yn rhoi sylw i ba mor rhugl ac aml mae pobl yn siarad Cymraeg yng Nghymru. Mae'n ddilyniant i'r adroddiad interim *Arolwg Cenedlaethol ar gyfer Cymru 2013-14: Arolwg ar y Defnydd o'r Gymraeg* a'r prif ychwanegiad yw'r dadansoddiad ar lefel yr Awdurdod Lleol. Pwysleisiodd MP mai atodiad oedd yr adroddiad i ddata cyfrifiad, sef y brif ffynhonnell o hyd ar gyfer data am y Gymraeg.<br><br>Cafwyd trafodaethau am y data sydd ar gael ar lefel yr Awdurdod Lleol a sut gallai awdurdodau lleol Cymru ddefnyddio'r wybodaeth hon. Awgrymodd MP a GJ y byddai rhywfaint o ddata ar gael ar lefel Awdurdod Lleol ac mai adroddiad unigol yw hwn sy'n darparu darlun o sefyllfaoedd Awdurdodau Lleol, a gellid ei gyfuno gyda data cyfrifiad i fwydo i asesiadau lles a gwaith polisi.<br><br>Gwelir yr adroddiad yn http://gov.wales/statistics-and-research/Welsh-language-use-survey/?lang=en. | |
| **7** | **Ffocws Ystadegol ar Grefydd yng Nghymru** | |
| | Cyflwynodd SL ac SC brif ganfyddiadau'r adroddiad *Ffocws Ystadegol ar Grefydd yng Nghymru*, a gyhoeddwyd ar 27 Hydref 2015. Cynhyrchwyd y datganiad gan ddefnyddio'r cwestiwn ar grefydd a oedd wedi ymddangos yn y ddau gyfrifiad diwethaf (2001, 2011).<br><br>Nododd SC bod ei dîm ar hyn o bryd yn diweddaru ciwbiau StatsCymru ac y bydd dadansoddiadau'r Awdurdodau Lleol yn cael eu cyhoeddi'n nes ymlaen y mis yma.<br><br>Gwelir y datganiad yn http://gov.wales/statistics-and-research/census-population/?lang=en. | |
| **8** | **Rhannu Gwybodaeth** | |
| | Oherwydd cyfyngiadau amser, ni chafodd eitem 8 sylw. | |
| **9** | **Dewis Cymru** | |
| | Cafwyd arddangosfa o safle *Dewis Cymru* gan RP ac fe'i disgrifiodd fel "Y porthol cenedlaethol i ddinasyddion am wybodaeth am les yng Nghymru". Mae Dewis Cymru wedi cael ei gynllunio gyda thudalennau gwe a chyfeirlyfr o adnoddau, y gellir eu defnyddio i ganfod gwybodaeth am les a gwasanaethau lleol. Mae safle Dewis Cymru wedi cael ei greu gan ymgynghori'n agos â'r cyhoedd i sicrhau ei fod mor effeithiol â phosib.<br><br>Mae'r safle ar gael ar bob llwyfan ac mae'n cael ei ddatblygu i sicrhau ei fod yn fwy hygyrch i'r rhai sydd ag anableddau dysgu, ac i ddatblygu ei swyddogaeth Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd. Mae'n weithredol yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd a dylai fod yn weithredol yng Nghaerdydd a'r Fro ac yng Nghwm Taf yn y flwyddyn newydd. Cafwyd trafodaeth ar gost rhedeg y safle a dywedodd RP y byddai'r gost yn llawer is o gymharu â'r sefyllfa bresennol, gan ei fod yn cael ei ddatblygu a'i gynnal yn ganolog, gan leihau costau ac osgoi dyblygu.<br><br>Gwelir y safle yn http://www.dewis.wales/ | |

| 10 | **Dangosyddion Cenedlaethol Cenedlaethau'r Dyfodol** | |
|---|---|---|
| | Cyflwynodd RC Ddangosyddion Cenedlaethol Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r ymgynghori ar y 40 dangosydd wedi bod ar agor ers 19 Hydref ac mae'n cau ar 11 Ionawr 2016. Y meini prawf allweddol ar gyfer y dangosyddion yw bod nifer y dangosyddion yn cael eu cadw i gyn lleied â phosib, bod y cyhoedd yn gallu uniaethu â hwy, eu bod yn gydlynol ac yn cyd-fynd, a'u bod yn mesur Cymru gyfan.<br><br>Pwysleisiodd RC mai pwrpas y dangosyddion yw darparu naratif ar gyfer Cymru a sut mae Cymru'n gwneud cynnydd yn erbyn yr amcanion lles; nid rhestr o dasgau neu ddangosyddion perfformiad ar gyfer Awdurdodau Lleol ydynt.<br><br>Cafwyd trafodaeth ar asesiadau lles ac amseriad adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol a pha un ai fyddai'n rhaid i Awdurdodau Lleol ailgyflwyno eu hasesiadau lles ar ôl i'r adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol gael ei gyhoeddi - AC i gael ateb i hyn. Trafodwyd y cyfarwyddyd newydd i Awdurdodau Lleol gynhyrchu dadansoddiad sefyllfa ac ymateb hefyd - dywedodd AMM mai adnodd oedd y cyfarwyddyd i ddangos sut beth yw asesiad da ac nad oedd disgwyl i Awdurdodau Lleol fod yn gwbl gywir y tro cyntaf.<br><br>Gofynnodd GJ am y teimladau cyffredinol am y dangosyddion. Mynegodd llawer o'r aelodau bryderon eu cydweithwyr am ddefnyddio data'r Arolwg Cenedlaethol ar gyfer y dangosyddion, ond awgrymwyd mai sail y pryderon hyn oedd diffyg dealltwriaeth o'r Arolwg Cenedlaethol a'r ffaith nad yw ansawdd cadarn yr Arolwg Cenedlaethol yn cael ei hybu ddigon.<br><br>Croesawodd GJ, RC ac AC ymatebion pawb (gellir eu cyflwyno gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein neu drwy lenwi dogfen Word). | **Gweithredu: AC i ganfod a fyddai'n rhaid i Awdurdodau Lleol ailgyflwyno eu hasesiadau lles ar ôl i'r adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol gael ei gyhoeddi.** |
| 11 | **Amcanestyniadau Parciau Cenedlaethol ac amcanestyniadau Poblogaeth** | |
| | Cyflwynodd GJ adroddiad ar amcanestyniadau poblogaeth y dyfodol, yn benodol ar gyfer poblogaethau'r Parciau Cenedlaethol hyd at 2028. Rhyddhawyd y datganiad a thablau StatsCymru ar 21 Hydref 2015. Gwelir y datganiad yn [http://gov.wales/statistics-and-research/population-projections-national-parks/?lang=en.](http://gov.wales/statistics-and-research/population-projections-national-parks/?lang=en) | |
| 12 | **Unrhyw Fater Arall** | |
| | Mae StatsCymru yn dod yn gwbl ddwyieithog a gwneir cyhoeddiad pan lansir y safle dwyieithog. Bydd y ciwbiau economaidd a phoblogaeth yn ddwyieithog yn fuan.<br><br>Awgrymwyd y dylai pob aelod o awdurdod lleol ar y Pwyllgor roi crynodeb o sefyllfa eu cyngor mewn perthynas ag asesiadau poblogaeth ac anghenion yng nghyfarfodydd y dyfodol, fel bod posib eu trafod yn y cyfarfod dilynol gydag eitem agenda sefydlog.<br><br>Awgrymodd GJ hefyd y gellid gwahodd siaradwr ar ran y Comisiynydd Pobl Hŷn. | **Gweithredu: Yr ysgrifenyddiaeth i gomisiynu diweddariadau byrion gan aelodau Awdurdodau Lleol ynghylch asesiadau anghenion cyn y cyfarfod nesaf.** |
| | Cynhelir cyfarfod nesaf PCYC ym mis Ebrill 2016 yng Nghaerdydd. Y dyddiad i'w gadarnhau. | **Yr ysgrifenyddiaeth i gadarnhau'r dyddiad gyda'r Aelodau.** |

| Crynodeb o'r Pwyntiau Gweithredu | |
|---|---|
| 1 | **SL a GJ i ofyn i Janine rannu ei gwaith ar amcanestyniadau'r llafurlu mewn cyfarfod yn y dyfodol o PCYC.** |
| 2 | **Yr holl aelodau i roi gwybod i AS am unrhyw wybodaeth goll a ddylai fod yn y catalog asesiadau poblogaeth drafft yn eu barn hwy.** |
| 3 | **AC i ganfod a fyddai'n rhaid i Awdurdodau Lleol ailgyflwyno eu hasesiadau lles ar ôl i'r adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol gael ei gyhoeddi.** |
| 4 | **Yr ysgrifenyddiaeth i gomisiynu diweddariadau byrion gan aelodau Awdurdodau Lleol ynghylch asesiadau anghenion cyn y cyfarfod nesaf.** |
| 5 | **Yr ysgrifenyddiaeth i gadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf gyda'r Aelodau.** |